



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 754 (Cy. 119)

2023 No. 754 (W. 119)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion
Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid
Anwes ac Iechyd Anifeiliaid
(Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023**

**The Animal By-Products, Pet
Passport and Animal Health (Fees)
(Wales) (Amendment) Regulations
2023**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/646 (Cy. 120)) ("y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid") a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/650 (Cy. 122)) ("y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid") (gyda'i gilydd, "Rheoliadau 2018"). Mae'r diwygiadau'n addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ym maes iechyd anifeiliaid gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i adlewyrchu swm adennill cost lawn y gwasanaethau hynny.

These Regulations amend the Animal By-Products and Pet Passport (Fees) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/646 (W. 120)) ("the Animal By-Products Regulations") and the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/650 (W. 122)) ("the Animal Health Regulations") (together, "the 2018 Regulations"). The amendments modify the fees payable to the Welsh Ministers under the 2018 Regulations for services provided in the field of animal health by the Animal and Plant Health Agency to reflect full cost recovery of those services.

Mae rheoliad 2(4) yn diwygio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i ddirymu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am ddogfennau adnabod gwag a gwasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â darparu dogfennau adnabod pasbortau anifeiliaid anwes.

Regulation 2(4) amends the Animal By-Products Regulations to revoke the fees payable to the Welsh Ministers for blank identification documents and services carried out in relation to the provision of pet passport identification documents.

Mae rheoliad 2(5) yn diwygio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Cynyddir y ffioedd, pan gynyddir hwy, yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 41%, o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae'r ail gynydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Regulation 2(5) amends the Animal By-Products Regulations to modify the fees payable to the Welsh Ministers for services carried out in relation to animal by-products. The fees, where increased, are increased by the medium average uplift of 41% from the current fees in two steps: the first increase applies on or after 5 July 2023, the second increase applies on or after 1 July 2024.

Mae rheoliad 3(6) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau salmonela. Cynyddir y ffioedd, pan gynyddir hwy, yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 53%, o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae'r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(7) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 21%, o'r ffioedd presennol. Mae rheoliad 3(7)(a) yn cynyddu ffioedd penodol y cynllun iechyd dofednod mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae'r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny. Mae rheoliad 3(7)(b) yn cynyddu gweddill ffioedd penodedig y cynllun iechyd dofednod mewn un cam, ac mae'r cynnydd yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(8) i (10) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau bridio artiffisial. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 65%, o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae'r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(11) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â safleoedd rheoli ar y ffin. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 34%, o'r ffioedd presennol mewn un cam, ac mae'r cynnydd yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 3(6) amends the Animal Health Regulations to modify the fees payable to the Welsh Ministers for services carried out in relation to salmonella controls. The fees, where increased, are increased by the medium average uplift of 53% from the current fees in two steps: the first increase applies on or after 5 July 2023, the second increase applies on or after 1 July 2024.

Regulation 3(7) amends the Animal Health Regulations to modify the fees payable to the Welsh Ministers for services carried out in relation to the poultry health scheme. The fees are increased by the medium average uplift of 21% from the current fees. Regulation 3(7)(a) increases certain poultry health scheme fees in two steps: the first increase applies on or after 5 July 2023, the second increase applies on or after 1 July 2024. Regulation 3(7)(b) increases the remainder of the specified poultry health scheme fees in a single step, and the increase applies on or after 5 July 2023.

Regulation 3(8) to (10) amend the Animal Health Regulations to modify the fees payable to the Welsh Ministers for services carried out in relation to artificial breeding controls. The fees are increased by the medium average uplift of 65% from the current fees in two steps: the first increase applies on or after 5 July 2023, the second increase applies on or after 1 July 2024.

Regulation 3(11) amends the Animal Health Regulations to modify the fees payable to the Welsh Ministers for services carried out in relation to border control posts. The fees are increased by the medium average uplift of 34% from the current fees in a single step, and the increase applies on or after 5 July 2023.

These Regulations also make minor and consequential amendments to the 2018 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Office of the Chief Veterinary Officer, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2023 Rhif 754 (Cy. 119)

2023 No. 754 (W. 119)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion
Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid
Anwes ac Iechyd Anifeiliaid
(Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023**

**The Animal By-Products, Pet
Passport and Animal Health (Fees)
(Wales) (Amendment) Regulations
2023**

Gwnaed 4 Gorffennaf 2023
Yn dod i rym 5 Gorffennaf 2023

Made 4 July 2023
Coming into force 5 July 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1) (“Deddf 2018”) a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 iddi, ac adran 10(1) a (3)(c) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(2).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by paragraph 7(2) of Schedule 4 and paragraph 21(b) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1) (“the 2018 Act”) and section 10(1) and (3)(c) of the Animal Health and Welfare Act 1984(2).

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(3).

In accordance with paragraph 1(8) of Schedule 7 to the 2018 Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru(3).

(1) 2018 p. 16; gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr “appropriate authority”. Diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) (“Deddf 2020”) a pharagraff 47(5) o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf 2020 a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.

(2) 1984 p. 40. Diwygiwyd adran 10 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50) a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44). Mae adran 10(8) yn diffinio “appropriate Minister” o ran Cymru fel yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 10. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(3) Mae paragraff 1(8) o Atodlen 7 yn gymwys i reoliadau o dan Atodlen 4 yn rhinwedd paragraff 12(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018. Mae'r cyfeiriadau yn Neddf 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(1) 2018 c. 16; see paragraph 8 of Schedule 4 for the meaning of “appropriate authority”. Paragraph 8 of Schedule 4 to the 2018 Act was amended by section 41(4) of, and paragraph 47(5) of Schedule 5 to, the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) (“the 2020 Act”). Paragraph 21 of Schedule 7 was amended by section 41(4) of, and paragraphs 38 and 53(2) of Schedule 5 to, the 2020 Act.

(2) 1984 c. 40. Section 10 was amended by the Statute Law (Repeals) Act 1993 (c. 50) and the Criminal Justice Act 2003 (c. 44). Section 10(8) defines the “appropriate Minister” as meaning the Secretary of State in relation to Wales for the purposes of section 10. The functions of the Secretary of State, insofar as they are exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Those functions are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) Paragraph 1(8) of Schedule 7 applies to regulations under Schedule 4 by virtue of paragraph 12(3) of Schedule 7 to the 2018 Act. The references in the 2018 Act to the National Assembly for Wales now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 5 Gorffennaf 2023.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at rif safle rhes mewn tabl yn gyfeiriad at ei safle heb gyfrif y rhes sy'n cynnwys penawdau colofnau'r tabl hwnnw.

Diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, ar ôl y diffiniad o "Rheoliad Rheolaeth yr UE" mewnosoder—

"ystyr "Rheoliad Rheolaethau Swyddogol" ("*Official Controls Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(2);".

(3) Yn rheoliad 4—

- (a) ym mharagraff (2), yn lle "Erthygl 45 o Rheoliad Rheolaeth yr UE" rhodder "Erthygl 20 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";
- (b) ym mharagraff (3), ar ôl "Rheoliad Rheolaeth yr UE" mewnosoder "neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol".

(4) Hepgorer rheoliad 5.

(5) Yn yr Atodlen—

- (a) yn Nhabl 1, yn lle'r ail a'r drydedd golofn rhodder—

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Animal By-Products, Pet Passport and Animal Health (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2023 and they come into force on 5 July 2023.

(2) In these Regulations, a reference to the numbered position of a row in a table is a reference to its position not counting the row containing the column headings of that table.

Amendment of the Animal By-Products and Pet Passport (Fees) (Wales) Regulations 2018

2.—(1) The Animal By-Products and Pet Passport (Fees) (Wales) Regulations 2018(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2, after the definition of "EU Control Regulation" insert—

"Official Controls Regulation" ("*Rheoliad Rheolaethau Swyddogol*") means Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council of 15 March 2017 on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products(2);".

(3) In regulation 4—

- (a) in paragraph (2), for "Article 45 of the EU Control Regulation" substitute "Article 20 of the Official Controls Regulation";
- (b) in paragraph (3), after "EU Control Regulation" insert "or the Official Controls Regulation".

(4) Omit regulation 5.

(5) In the Schedule—

- (a) in Table 1, for the second and third columns substitute—

(1) O.S. 2018/646 (Cy. 120).

(2) EUR 2017/625 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1481, O.S. 2022/621, O.S. 2022/846, O.S. 2022/1090 ac O.S. 2022/1315.

(1) S.I. 2018/646 (W. 120).

(2) EUR 2017/625 as amended by S.I. 2020/1481, S.I. 2022/621, S.I. 2022/846, S.I. 2022/1090 and S.I. 2022/1315.

<i>“Colofn 2 Ffi (£) am geisiadau sy’n dod i law ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>	<i>Colofn 3 Ffi (£) am geisiadau sy’n dod i law ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132	22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132
12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 72	12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 72
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
21 am bob anfoneb	21 am bob anfoneb
2,134.50	2,484
1,147	1,343
1,147	1,343
586	687
586	687
476	557
476	557”;

(b) yn Nhabl 2—

- (i) ym mhennawd y tabl, yn lle “Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE” rhodder “Erthygl 20 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (ii) yn y golofn gyntaf, yn lle “Reoliad Rheolaeth yr UE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (iii) yn lle’r ail a’r drydedd golofn rhodder—

<i>“Colofn 2 Ffi (£) am ymweliadau safle at ddibenion arolygu a gynhelir ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>	<i>Colofn 3 Ffi (£) am ymweliadau safle at ddibenion arolygu a gynhelir ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132	22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132
11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir

<i>“Column 2 Fee (£) for applications received on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>	<i>Column 3 Fee (£) for applications received on or after 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 132	22 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 132
12 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 72	12 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 72
22 per quarter hour or part quarter hour spent	22 per quarter hour or part quarter hour spent
11 per quarter hour or part quarter hour spent	11 per quarter hour or part quarter hour spent
21 per invoice	21 per invoice
2,134.50	2,484
1,147	1,343
1,147	1,343
586	687
586	687
476	557
476	557”;

(b) in Table 2—

- (i) in the table heading, for “Article 45 of the EU Control Regulation” substitute “Article 20 of the Official Controls Regulation”;
- (ii) in the first column, for “EU Control Regulation” in each place it occurs substitute “Official Controls Regulation”;
- (iii) for the second and third columns substitute—

<i>“Column 2 Fee (£) for inspection site visits undertaken on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>	<i>Column 3 Fee (£) for inspection site visits undertaken on or after 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 132	22 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 132
11 per quarter hour or part quarter hour spent	11 per quarter hour or part quarter hour spent

22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
188 am bob ymweliad	219 am bob ymweliad
752 y flwyddyn	876 y flwyddyn
2,256 y flwyddyn	2,628 y flwyddyn”.

22 per quarter hour or part quarter hour spent	22 per quarter hour or part quarter hour spent
12 per quarter hour or part quarter hour spent	12 per quarter hour or part quarter hour spent
11 per quarter hour or part quarter hour spent	11 per quarter hour or part quarter hour spent
188 per visit	219 per visit
752 per year	876 per year
2,256 per year	2,628 per year”.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018

3.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor—

- yn lle ““arolygfa ffin” (“*border inspection post*”)” rhodder ““safle rheoli ar y ffin” (“*border control post*”)”;
- yn lle’r diffiniad o “cynllun iechyd dofednod” rhodder—

“ystyr “cynllun iechyd dofednod” (“*poultry health scheme*”) yw’r cynllun a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy’n llywodraethu allforio neu symud adar neu wyau deor i’r UE, Gogledd Iwerddon neu wledydd penodedig nad ydynt yn yr UE, a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2021(2);”.

Amendment of the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2018

3.—(1) The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2018(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2, in the appropriate places in alphabetical order—

- for ““border inspection post” (“*arolygfa ffin*”)” substitute ““border control post” (“*safle rheoli ar y ffin*”)”;
- for the definition of “poultry health scheme” substitute—

““poultry health scheme” (“*cynllun iechyd dofednod*”) means the scheme established by the Secretary of State governing the export or movement of birds or hatching eggs to the EU, Northern Ireland or specified non-EU countries, published on 22 July 2021(2);”.

(1) O.S. 2018/650 (Cy. 122), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/737 (Cy. 140) ac O.S. 2022/1348 (Cy. 271).
(2) Mae copi o lawlyfr y cynllun iechyd dofednod ar gael ar-lein ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1012365/phs-handbook.pdf. Gellir cael copi caled o’r cynllun iechyd dofednod drwy ysgrifennu at yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn: The Animal and Plant Health Agency, Poultry Health Scheme Team, Customer Service Centre – One Health, Level 1 County Hall, Spetchley Road, Worcester WR5 2NP neu drwy anfon e-bost i CSCOneHealthPHS@apha.gov.uk.

(1) S.I. 2018/650 (W. 122), amended by S.I. 2019/737 (W. 140) and S.I. 2022/1348 (W. 271).
(2) A copy of the poultry health scheme handbook is accessible online at https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1012365/phs-handbook.pdf. A hard copy of the poultry health scheme handbook can be obtained by writing to the Animal and Plant Health Agency, Poultry Health Scheme Team, Customer Service Centre – One Health, Level 1 County Hall, Spetchley Road, Worcester WR5 2NP or emailing CSCOneHealthPHS@apha.gov.uk.

(3) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

“Y ffi sy’n daladwy pan fo gweithgaredd yn cael ei gyflawni dros gyfnod pan fo ffioedd gwahanol yn gymwys

2A. Os cyflawnir unrhyw weithgaredd y mae ffi yn daladwy ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn dros gyfnod pan fo ffioedd gwahanol yn gymwys, y ffi sy’n daladwy mewn perthynas â’r gweithgaredd hwnnw yw—

- (a) pan fo’r gweithgaredd yn cael ei gyflawni fel rhan o gais, y ffi sy’n gymwys ar y dyddiad y daw’r cais i law;
- (b) fel arall, y ffi sy’n gymwys ar y dyddiad y dechreuir y gweithgaredd.”.

(4) Yn rheoliadau 4(2)(a), (b) ac (c), 5(2)(a), 6(3), 7(2) ac 8(2), ar ôl “yng ngholofn 2” mewnosoder “neu golofn 3”.

(5) Yn rheoliad 9, ac ym mhennawd y rheoliad hwnnw, yn lle “arolygfeydd ffin” rhodder “safleoedd rheoli ar y ffin”.

(6) Yn Atodlen 1—

(a) yn Nhabl 1—

(i) yn lle Colofn 2 rhodder—

“Colofn 2 <i>Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>
12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 72
41
68
95
18 am bob sampl a brofwyd (nid yw’r ffi amser yn gymwys)”;

(ii) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

“Colofn 3 <i>Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 72
49
83
117
21 am bob sampl a brofwyd (nid yw’r ffi amser yn gymwys)”;

(3) After regulation 2 insert—

“Fee payable where an activity is carried out over a period during which different fees apply

2A. If any activity for which a fee is payable under these Regulations is carried out over a period during which different fees apply, the fee payable in relation to that activity is—

- (a) where the activity is carried out as part of an application, the fee that applies on the date the application is received;
- (b) otherwise, the fee that applies on the date the activity is commenced.”.

(4) In regulations 4(2)(a), (b) and (c), 5(2)(a), 6(3), 7(2) and 8(2) after “column 2”, insert “or column 3”.

(5) In regulation 9, and in the heading to that regulation, for “border inspection posts” substitute “border control posts”.

(6) In Schedule 1—

(a) in Table 1—

(i) for Column 2 substitute—

“Column 2 <i>Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>
12 per quarter hour or part quarter hour spent
12 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 72
41
68
95
18 per sample tested (time fee does not apply)”;

(ii) after Column 2 insert—

“Column 3 <i>Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
12 per quarter hour or part quarter hour spent
12 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 72
49
83
117
21 per sample tested (time fee does not apply)”;

(b) yn lle Tabl 2 rhodder—

(b) for Table 2 substitute—

“Tabl 2

“Table 2

Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyaeth o dan Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003		
<i>Colofn 1 Gweithgaredd</i>	<i>Colofn 2 Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>	<i>Colofn 3 Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
Prosesu cais am gymeradwyaeth gychwynnol i labordy, neu am adnewyddiad dwyflynyddol o gymeradwyaeth labordy	86	86
Cynnal arolygiadau ar gyfer gwaith sicrhau ansawdd	688 am bob ymweliad	1,025 am bob ymweliad
Cynnal profion cydweithredol ar gyfer <i>Salmonella</i> fel sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth fel labordy profi, a chadw'r gymeradwyaeth honno	44 am bob prawf	44 am bob prawf”;

Fees payable by the operator of a laboratory in relation to an approval under Article 12 of Regulation (EC) No 2160/2003		
<i>Column 1 Activity</i>	<i>Column 2 Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>	<i>Column 3 Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
Processing an application for an initial laboratory approval or a biennial renewal of a laboratory approval	86	86
Conducting inspections for quality assurance	688 per visit	1,025 per visit
Conducting collaborative testing for <i>Salmonella</i> as required to obtain and maintain approval as a testing laboratory	44 per test	44 per test”;

(c) yn Nhabl 3—

(c) in Table 3—

(i) yn lle Colofn 2 rhodder—

(i) for Column 2 substitute—

“ <i>Colofn 2 Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>
123
3,203
3,517”;

“ <i>Column 2 Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>
123
3,203
3,517”;

(ii) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

(ii) after Column 2 insert—

“ <i>Colofn 3 Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
146
3,936
3,954”.

“ <i>Column 3 Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
146
3,936
3,954”.

(7) Yn Atodlen 2—

(a) yn Nhabl 1—

(i) yn lle Colofn 2 rhodder—

<i>“Colofn 2 Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
82 (nid yw’r ffi amser yn gymwys)
49
62
35
61 (nid yw’r ffi amser yn gymwys)
34 (nid yw’r ffi amser yn gymwys)”;

(ii) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

<i>“Colofn 3 Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
108 (nid yw’r ffi amser yn gymwys)
71
67
39
67 (nid yw’r ffi amser yn gymwys)
39 (nid yw’r ffi amser yn gymwys)”;

(b) yn Nhabl 2, yn lle Colofn 2 rhodder—

<i>“Colofn 2 Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny</i>
86
158 am bob prawf
310 am bob prawf
310 am bob prawf
280 am bob prawf
310 am bob prawf”.

(8) Yn y Tabl yn Atodlen 3—

(a) yng Ngholofn 1—

- (i) yn y bedwaredd res yn lle “canolfan gasglu CE” rhodder “canolfan gasglu drwyddedig”;
- (ii) yn y bumed res yn lle “canolfan gwarantín CE” rhodder “canolfan gwarantín drwyddedig”;
- (iii) yn y chweched res—
 - (aa) yn lle “canolfan gasglu CE” rhodder “canolfan gasglu drwyddedig”;

(7) In Schedule 2—

(a) in Table 1—

(i) for Column 2 substitute—

<i>“Column 2 Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
82 (time fee does not apply)
49
62
35
61 (time fee does not apply)
34 (time fee does not apply)”;

(ii) after Column 2 insert—

<i>“Column 3 Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
108 (time fee does not apply)
71
67
39
67 (time fee does not apply)
39 (time fee does not apply)”;

(b) in Table 2, for Column 2 substitute—

<i>“Column 2 Fee (£) on or after 5 July 2023</i>
86
158 per test
310 per test
310 per test
280 per test
310 per test”.

(8) In the Table in Schedule 3—

(a) in Column 1—

- (i) in the fourth row for “an EC collection centre” substitute “a licensed collection centre”;
- (ii) in the fifth row for “an EC quarantine centre” substitute “a licensed quarantine centre”;
- (iii) in the sixth row—
 - (aa) for “an EC”, in the first place it occurs, substitute “a licensed collection centre”;

(bb) yn lle “neu ganolfan storio CE” rhodder “neu ganolfan storio drwyddedig”;

(iv) yn yr wythfed res yn lle “at ddefnydd domestig neu ddefnydd y CE” rhodder “at ddefnydd domestig neu at ddefnydd masnachu ag Aelod-wladwriaeth”;

(b) yn lle Colofn 2 rhodder—

“Colofn 2 <i>Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
27
35
39
37
23
31”;

(c) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

“Colofn 3 <i>Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
33
44
48
46
28
38”.

(9) Yn Atodlen 4, yn y Tabl—

(a) yn lle Colofn 2 rhodder—

“Colofn 2 <i>Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
42 am bob baedd
31 am bob baedd
37
34
23”;

(bb) for “or an EC” substitute “or a licensed storage centre”;

(iv) in the eighth row for “for domestic or EC use” substitute “for domestic use or for use for trade with a member State”;

(b) for Column 2 substitute—

“Column 2 <i>Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
27
35
39
37
23
31”;

(c) after Column 2 insert—

“Column 3 <i>Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
33
44
48
46
28
38”.

(9) In Schedule 4, in the Table—

(a) for Column 2 substitute—

“Column 2 <i>Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
42 per boar
31 per boar
37
34
23”;

(b) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

“Colofn 3 <i>Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
53 am bob baedd
38 am bob baedd
46
42
28”.

(10) Yn Atodlen 5, yn y Tabl—

(a) yn y drydedd res o Golofn 1—

- (i) ar ôl y geiriau “tîm trosglwyddo embryonau buchol” mewnosoder “o dan reoliad 4 o Reoliadau 1995”;
- (ii) hepgorer “storfa o dan reoliad 13 o Reoliadau 1995;”;
- (iii) ar ôl y geiriau “(gan gynnwys arolygu labordy neu beidio)” mewnosoder “o dan reoliad 6 neu 7 o Reoliadau 1995”;

(b) yn lle Colofn 2 rhodder—

“Colofn 2 <i>Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132
38
13
34
23
6 am bob tîm ychwanegol a phob labordy neu storfa ychwanegol”;

(c) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

“Colofn 3 <i>Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny</i>
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132

(b) after Column 2 insert—

“Column 3 <i>Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
53 per boar
38 per boar
46
42
28”.

(10) In Schedule 5, in the Table—

(a) in the third row of Column 1—

- (i) after the words “a bovine embryo transfer team” insert “under regulation 4 of the 1995 Regulations”;
- (ii) omit “a store under regulation 13 of the 1995 Regulations;”;
- (iii) after the words “(with or without an inspection of a laboratory)” insert “under regulation 6 or 7 of the 1995 Regulations”;

(b) for Column 2 substitute—

“Column 2 <i>Fee (£) on or after 5 July 2023 but before 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132
38
13
34
23
6 for each additional team and laboratory or store”;

(c) after Column 2 insert—

“Column 3 <i>Fee (£) on or after 1 July 2024</i>
22 per quarter hour or part quarter hour spent
22 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 132

47
16
42
28
7 am bob tîm ychwanegol a phob labordy neu storfa ychwanegol”.

(11) Yn Atodlen 6—

(a) ym mhennawd yr Atodlen honno ac ym mhennawd Tabl 1, yn lle “arolygfeydd ffin” rhodder “safleoedd rheoli ar y ffin”;

(b) yn lle Tabl 1 rhodder—

<i>“Colofn 1 Arolygu math o anifail a gwirio dogfennau</i>	<i>Colofn 2 Ffioedd (£) am bob llwyth ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny</i>
Dofednod ac adar hela bach	53
Dofednod – mewnfiorion wyau rheolaidd	53
Ratidau	53
Adar caeth	61
Pysgod byw, anifeiliaid dyfrol ac amffibiaid	48
Gwenyn	40
Cwningod a chnofilod	44
Pryfed eraill ac infertebratau	40
Ymlusgiaid	48
Anifeiliaid anwes heb ddatganiad	63
Equidae	79
Da byw a ffermir, gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, camelidau, moch a baeddod gwyllt	190
Anifeiliaid nas cynhwysir mewn unrhyw gategori arall	50
Gwirio dogfennau ar gyfer trawslwytho	79”;

(c) yn Nhabl 2, yn lle Colofn 2 rhodder—

<i>“Colofn 2 Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny</i>
261 am bob llwyth ⁽²⁾
346 am bob llwyth ⁽²⁾
16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 96 am bob ymweliad

⁽²⁾ ystyr “llwyth” yw un neu ragor o lwythi o anifeiliaid sy’n tarddu o’r un wlad, sydd wedi cyrraedd ar yr un cyfleuster cludo, ac wedi eu cyflwyno ar gyfer eu gwirio yn y safle rheoli ar y ffin ar yr un pryd, gan berson sy’n gyfrifol am eu mewnfiorio.”;

47
16
42
28
7 for each additional team and laboratory or store”.

(11) In Schedule 6—

(a) in the heading to that Schedule and in the heading to Table 1, for “border inspection posts” substitute “border control posts”;

(b) for Table 1 substitute—

<i>“Column 1 Inspection of type of animal and checking documents</i>	<i>Column 2 Fees (£) per consignment on or after 5 July 2023</i>
Poultry and small game birds	53
Poultry – regular egg imports	53
Ratites	53
Captive birds	61
Live fish, aquatic animals and amphibians	48
Bees	40
Rabbits and rodents	44
Other insects and invertebrates	40
Reptiles	48
Pets unaccompanied by a declaration	63
Equidae	79
Farmed livestock, including cattle, sheep, goats, camelids, pigs and wild boar	190
Animals not covered by any other category	50
Transshipment check of documents	79”;

(c) in Table 2, for Column 2 substitute—

<i>“Column 2 Fee (£) on or after 5 July 2023</i>
261 per load ⁽²⁾
346 per load ⁽²⁾
16 per quarter hour or part quarter hour spent, up to a maximum of 96 per visit

⁽²⁾ “load” means one or more consignments of animals from the same country of origin that have arrived on the same means of transport and presented by a person responsible for their importation for checking at the border control post at the same time.”;

(d) yn Nhabl 3, yn lle Colofn 2 rhodder—

<i>“Colofn 2 Ffi am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny</i>
21
28
14
16, hyd at uchafswm o 96 am bob ymweliad”.

(d) in Table 3, for Column 2 substitute—

<i>“Column 2 Fee per quarter hour or part quarter hour spent on or after 5 July 2023</i>
21
28
14
16, up to a maximum of 96 per visit”.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r
Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
4 Gorffennaf 2023

©[©]Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a
goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd
Deddfau Senedd y Brenin.

Minister for Rural Affairs and North Wales, and
Trefnydd, one of the Welsh Ministers
4 July 2023

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Jeff James, Controller
of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of
Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/754>

ISBN 978-0-348-39455-9



9 780348 394559